RHIFYN ARBENNIG I RIENI

# SchoolBeat.cymru



## Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

# Cylchlythyr

## Heddlu'n diogelu plant Cymru trwy addysg atal troseddu

Rhifyn

# 18

Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan
All Wales School Liaison Core Programme

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Annwyl gydweithwyr a rhieni



**Mae'r RHIFYN ARBENNIG HWN I RIENI yn llawn gwybodaeth, cyngor a newyddion i'ch cynorthwyo chi a'ch plentyn yn yr ysgol. Mae Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn fwy Diogel ym mis Chwefror felly mae ein Herthygl Arbennig yn sôn am Gadernid Digidol.**

## Cynnwys...


**Erthygl Arbennig...**

Cadernid Digidol ........ 2-3

Swyddog o Seland Newydd yn ymweld â thîm SchoolBeat Gogledd Cymru ........ 4-5

Cyffur o dan y Chwyddwydr – XANAX ........ 6

Newydd i 2020 'Stori Griff' ........ 7

Pontio'r Bwlch – gweithio gyda disgyblion sy'n cael addysg gartref ........ 8-9

Troseddau Cyllyll – Ymgyrch Sceptre ........ 10

Atodiad Rhydd – Canllaw Rhieni i SchoolBeat


★ ERTHYGL ARBENNIG ★

# CADERNID DIGIDOL



## BETH YW CADERNID DIGIDOL?

**Cadernid digidol yw'r gallu i gydnabod risg ar-lein a'r hyn i'w wneud i gadw'n ddiogel.**

Mae cadernid yn datblygu pan mae plant yn wynebu heriau. Gwnaiff plentyn cadarn gadw'n ddiogel pan mae rhywbeth annisgwyl neu frawychus yn digwydd ar-lein oherwydd eu bod yn gwybod beth i'w wneud.

Mae'n bwysig fod plant yn cymryd risgiau priodol i oed fel y gallent ddysgu ac adfer.

Er mwyn i hyn weithio mae cyfathrebu'n hanfodol. Gall fod yn anodd dal i fyny gyda'r holl declynnau ac apiau newydd y mae plant mor gyfforddus yn eu

defnyddio. Ond bydd sefydlu rheolau sylfaenol, monitro defnydd a siarad am gynnwys negyddol yn cynorthwyo plant i brosesu'r hyn a welant.

Dywed Dr. R Graham, Seiciatrydd Plant a Phobl Ifanc:

> "Pan na allwn ni siarad am faterion anodd, neu pan geisiwn eu hanwybyddu, maen nhw'n dod yn fwy, yn hytrach nag yn llai brawychus. Ni ellir dad-weld yr hyn a welwyd (ar-lein), mae siarad gyda'n gilydd yn gwneud gwahaniaeth"

Digital Parenting: Cyf.6, Vodafone

Er ei fod weithiau'n anodd ei wneud, mae angen i oedolion osod ffiniau fel bod plant yn gwybod yr hyn sy'n ddiogel a'r hyn sydd ddim. Siaradwch am sut i roi rhywbeth ar-lein yn ddiogel heb





rannu manylion personol fel manylion cyswllt a lleoliad. Dangoswch sut i hysbysu am gysylltiadau amhriodol gan bobl eraill a phwy i gysylltu â nhw os oes rhywbeth drwg yn digwydd.

Gallwch hefyd sicrhau fod plant yn gwybod y gallent ddefnyddio peiriannau chwilio newydd fel SafeSearch i sicrhau nad ydynt yn dod ar draws pethau annifyr.

Mae ysgolion yn gallu bod o gymorth drwy ddysgu plant i feddwl yn feirniadol ynghylch yr hyn maent yn ei wneud a'i weld, creu hyder a chynnig oedolion y gellir ymddiried ynddynt i siarad â nhw pan mae pethau'n mynd o chwith. Mae'r oedolion hyn yn cynnwys athrawon a Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY).

## Y CYNGOR GORAU?

Gadewch i blant wneud y defnydd gorau o declynnau digidol drwy siarad am eu sgiliau a'u profiadau!

## COFIWCH!

Mae gennym nifer o fewnbynnau SchoolBeat yn addysgu ein plant a'n pobl ifanc am gadernid digidol drwy'r holl gyfnodau allweddol. Ewch ar **SchoolBeat.Cymru** am fwy o wybodaeth.

## Pwy all fod o gymorth?

Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth gadw plant yn ddiogel ar-lein. Mae llawer o gyngor a chymorth ar gael.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu adnoddau a chyngor ar Hwb: **https://hwb.gov.wales/parthau/diogelwch-ar-lein**

Mae'r NSPCC ac elusennau eraill yn rhoi cyngor defnyddiol: **https://www.net-aware.org.uk/tips-and-advice**

Mae South West Grid for Learning yn cynnig cyngor, adnoddau a gwasanaethau **https://swgfl.org.uk**



SWYDDOG O SELAND

# SWYDDOG O SELAND Â THÎM SCHOOLBEAT GOGLEDD CYMRU

**Teithiodd Swyddog Heddlu dros 11,600 o filltiroedd i dreulio amser mewn ystafelloedd dosbarth yng Ngogledd Cymru a dysgu mwy am SchoolBeat.**

Gwnaeth Uwch Gwnstabl Terri Middleton o Greymouth, Seland Newydd ymweld â Thîm SchoolBeat Heddlu Gogledd Cymru ar ôl dysgu am y Rhaglen sy'n cynnig gwersi atal troseddau i ddisgyblion 5-16 oed.

Mae Terri, a ymwelodd â'r DU ddiwethaf dros 30 mlynedd yn ôl, yn gweithio mewn rôl atal mewn partneriaeth ag ysgolion ar Arfordir Gorllewinol Ynys y De.

Wedi derbyn nawdd drwy Gymrodoriaeth Heddlu Woolf Fisher i ymweld â chymheiriaid rhyngwladol, gwnaeth Terri drefnu'r ymweliad i ddysgu mwy am weithdrefnau cau ysgol, gwybod am yr adnoddau a gyflwynir i ddisgyblion ac edrychir ar sut y gweithredir strategaethau effeithiol.

Dywedodd, "Mae wedi bod yn ddiddorol iawn clywed sut mae'r Rhaglen SchoolBeat yn cael ei chyflwyno i ddisgyblion yng Nghymru. Rwyf wedi cael dyddiau gwych yn cyfarfod â'r tîm sydd wedi rhoi dealltwriaeth well i mi o sut mae heddluoedd yng Nghymru yn gweithio'n galed i atal pobl ifanc rhag mynd i'r system cyfiawnder troseddol.

"Hoffwn estyn fy niolch cywiraf i bawb sydd wedi neilltuo amser i ateb fy nghwestiynau. Mae wedi bod yn fraint fawr ymweld ag ardal hardd fel Gogledd Cymru."

Fel rhan o'i hymweliad astudiaeth 3 wythnos fe wnaeth hefyd drefnu i ymweld â chydweithwyr yn heddluoedd Swydd Gaer, Swydd Efrog a Glannau Mersi. Ers hynny mae wedi adrodd am ei chanfyddiadau wrth iddi ddychwelyd i Seland Newydd.

Dywedodd Cydlynydd SchoolBeat Gogledd Cymru, Mannon Williams,

"Mae wedi bod yn bleser mawr bod hefo Terri sydd wedi mwynhau ei hamser gyda ni yn fawr. Roedd hefyd yn ddiddorol gwybod am agweddau

**"Mae'n galondid gwybod, er ein bod ar ochr arall y byd fod cymaint o ffyrdd a rennir y mae pobl ifanc yn cael eu diogelu"**

# DARPARIAETHAU GWYBODAETH NEWYDD SYDD AR GAEL !!!!

Mae ystod eang o daflenni newydd a ddyluniwyd gan **SWPPRiNT** mewn cydgysylltiad ag SchoolBeat sy'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau ar gael i'w harchebu nawr, i weld beth sydd ar gael neu i gael mwy o wybodaeth ewch i SchoolBeat.cymru




tebyg a chael syniadau newydd a fydd o fudd yn y dyfodol i'r timau yma."

"Roedd yn ddiddorol dysgu am yr ardal eang a'r nifer mawr o ysgolion sydd gan Terri dan ei gofal a sut mae'n goresgyn yr heriau hynny i ymgysylltu gyda'i chymuned. Rwyf yn edrych ymlaen yn arw at gadw mewn cysylltiad â Terri i weld sut all ein gwaith yma yng Nghymru fod o gymorth i ysbrydoli swyddogion yn Seland Newydd."

Yn ystod ei hwythnos gyda Heddlu Gogledd Cymru gwnaeth Terri ymweld ag ysgolion yng Nghonwy a'r Rhyl i weld rhai o'r gwersi sy'n cael eu cyflwyno gan y Swyddogion Heddlu sy'n gweithio fel rhan o'r tîm SchoolBeat.


Mae Terri yn Uwch Gwnstabl a mae wedi cael gyrfa o 27 mlynedd gyda Heddlu Seland Newydd. Mae wedi cael amrywiol rolau rheng flaen. Mae'n canolbwyntio rŵan ar weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion.



*Terri yn cyfarfod â'r Rhingyll Beth Jones a Mannon Williams*



*Terri gyda disgyblion yn yr ardal ganolog*



# CYFFUR DAN Y CHWYDDWYDR

(Alpazolam)

# Xanax

## FFEIL FFEITHIAU

**Mae enwau slang:** yn cynnwys 'bars', 'ladders', 'footballs', a 'zannies'.

**Sgil effeithiau:** syrthni, iselder, cur pen, blinder, problemau cofio, cannwyll y llygaid ar led (pan mae gormod wedi'i gymryd), dryswch, rhithiau, lleferydd aneglur, diluddiannu.

Defnyddir Xanax ar gyfer rheoli anhwylderau panig yn y tymor byr. Yn anffodus, mae pobl ifanc yn troi at ddefnyddio Xanax i drin gorbryder ysgafn. O ganlyniad, maent yn peryglu eu bywydau. Yn anffodus mae'n mynd yn arferiad eithafol. Mae Xanax yn cael ei lyncu ond (yn enwedig gyda defnyddwyr aml-gyffuriau) mae'n hysbys ei fod wedi cael ei gymysgu a'i chwistrellu gydag iselyddion eraill fel Heroin. Mae hyn yn ei gwneud hi'n hynod beryglus!

Nid yw Xanax ar gael ar y GIG ond mae ar werth ar-lein gan ei wneud yn hawdd i fod ar gael.

## PERYGLON

**Gall dognau uchel fod yn angheuol.**

Gall gymryd rhwng 5 munud ac 1 awr i ddechrau teimlo effeithiau'r cyffur. Gellir teimlo'r effeithiau am 2-4 awr gyda theimladau "niwlog" yn aros yn llawer hirach.

Gall cymysgu Alcohol a Xanax achosi llonyddu a meddwdod. Mae alcohol yn cynyddu effeithiau Xanax, felly mae defnyddio'r ddau sylwedd gyda'i gilydd yn gallu creu crynhoad o Xanax a all arwain at orddos.

Arwyddion o orddos i gadw llygad allan amdanynt yw: pwls gwan a chyflym, anadlu ysgafn, croen oer a llaith, syrthni eithafol, gwendid cyhyrol, cannwyll y llygaid wedi lledu, dryswch, llewygu, colli cydbwysedd, a theimlo'n benysgafn.

**Gall Xanax hefyd ymyrryd gyda meddyginiaethau megis:** atalwyr cenhedlu sy'n cael eu llyncu, cyffuriau iselder, cyffuriau gwrthfiotig ac opioidau.

Gall diddyfnu o Xanax fod yn ddifrifol. Mae symptomau'n dechrau rhwng 2-7 diwrnod o beidio ei gael a gall barhau am hyd at 8 wythnos! Gall diddyfnu achosi problemau cysgu, aflonyddwch, nerfusrwydd, ymddygiad ymosodol, a chanolbwyntio gwael.

Mae cymorth ar gael gan asiantaethau cyffuriau lleol ac ar-lein. **www.dan247.org.uk**
**0808 808 2234**



# STORi GRiFF

NEWYDD I 2020

**'Stori Griff' yw gwers a ffilm newydd SchoolBeat, wedi'u llunio i addysgu plant am Gam-drin a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSAE).**

Mae'r ffilm yn dilyn bachgen 10 oed o'r enw Griff, sy'n mynd i glwb chwaraeon ar ddydd Sadwrn. Wrth i'r stori ddatblygu, rydym yn gweld oedolyn yn ceisio rhwydo Griff. Yn ddiweddarach, rydym yn dysgu sut mae plentyn hŷn o'r enw Huw yn cynorthwyo Griff i godi'i lais a chael cymorth.

Mae'r canolbwyntio ar fachgen ifanc yn adlewyrchu ymchwil gan elusennau fel Barnado's a'r NSPCC sy'n tynnu sylw at risg benodol i fechgyn. Awgryma ymchwil hefyd fod bechgyn yn llai tebygol hefyd o hysbysu am bryderon neu gael eu gweld fel dioddefwyr.

Mae'r ffilm wedi'i llunio, mewn ffordd sy'n briodol i oedran arbennig, i gynorthwyo plant i adnabod arwyddion CSAE a darparu'r iaith, sgiliau a hyder i godi'u llais a chael eu clywed. Mae'r ffilm yn torri tir newydd gan ei fod yn hygyrch i holl ddysgwyr ac mae ar gael mewn Iaith Arwyddion Prydeinig, yn Gymraeg a Saesneg, gyda sain ddisgrifiad. Ewch ar YouTube am ragflas o'r ffilm: **bit.ly/2O75E3x**

Bydd y ffilm a'r wers ar gael i 40,000 o plant 6 oed yng Nghymru bob blwyddyn!

Siaradodd Kirsty Williams, Gweinidog Addysg Cymru, yn y lansiad ffilm diweddar a gynhaliwyd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Dywedodd fod y ffilm yn enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth

"NID YW DIOGELU EIN PLANT RHAG NIWED YN RHYWBETH Y GALLWN EI WNEUD AR EIN PEN EIN HUNAIN. MAE ANGEN I NI GYD WEITHIO GYDA'N GILYDD"



Ychwanegodd fod gwaith SchoolBeat mewn partneriaeth ag ysgolion wedi sicrhau fod negeseuon diogelu pwysig yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sensitif ac atyniadol.

# PONTIO'R BWLCH

## GWEITHIO GYDA PHLANT A ADDYSGIR GARTREF...



**Ym mis Gorffennaf gwelwyd cynllun peilot o Brosiect Addysg Gartref Dewisol arbrofol cyffrous gyda theuluoedd o ardal heddlu De Cymru.**

Gwnaeth 40 o westeion fwynhau sesiwn foreol ym Mhencadlys Heddlu De Cymru, gan ymweld â'r Ganolfan Dreftadaeth a chymryd rhan mewn mewnbynnau dosbarthiadau ynghylch diogelwch ar-lein a chadw'n ddiogel yn y gymuned.



Dywedodd Faith McCready sef arweinydd Cenedlaethol y Rhaglen SchoolBeat: "Dywedodd rhieni wrthym eu bod wedi derbyn croeso ac yn gwerthfawrogi'r ymweliad gan weld gwerth yn yr hyn oedd y plant yn dysgu amdano.

Gwnaethant ddweud eu bod yn meddwl fod y diwrnod wedi'i gynllunio'n dda a bod cynllun clir wedi'i roi ymhell cyn yr ymweliad o gymorth.

Dywedodd un rhiant wrthym: "Roedd y plant wedi ymgysylltu'n fawr yn ystod y diwrnod ym Mhencadlys Heddlu De Cymru. O'r eiliad y gwnaethom gyrraedd roedd fy 3 o blant yn gwybod yn union yr hyn oedd yn digwydd a'r hyn oedd yn ddisgwyliedig ganddynt. Mae gan fy merch syndrom Asperger ac roedd hyn o gymorth mawr."

Dywedodd rhiant arall i fachgen: "Gofynnodd fy mab ar y ffordd adref os gallwn fynd i fwy o'r rhain! Mae hyn yn gamp ynddi'i hun, gan ei fod yn gwrthod mynd i grwpiau Addysg Gartref oherwydd problemau'n cymdeithasu ayyb.



"Gwnaethom fwynhau bob munud. Roedd yr heddlu'n wych ac mor dalentog yn yr hyn maent yn ei wneud gyda phlant. Diolch yn fawr iawn i chi am alluogi hyn ar gyfer ein plant"

Diolch am ddiwrnod yn llawn gwybodaeth. Rwy'n bositif y bydd grwpiau yn y dyfodol mor falch â ninnau".

Dywedodd rhieni eu bod yn teimlo fod y diwrnod yn effeithiol wrth gynorthwyo eu plant i gadw'n ddiogel ar-lein. Dywedodd un rhiant wrthym:

"Daethant oddi yno gyda chymaint. Cymaint fel bod yr ieuengaf gen i yn dal i ddweud wrthyf am beidio rhannu gormod o wybodaeth. Mae'n canolbwyntio'n llwyr ar beidio rhannu gormod o wybodaeth bersonol ar-lein - sy'n wych".

Daeth rhaglen y prynhawn i ben gydag ymweliad i'r adran gŵn, lle gwnaeth Swyddogion Heddlu ddangos sut maent yn gweithio o gadw'n cymunedau'n fwy diogel. Roedd y plant dan gyfaredd wrth wylio sut mae'r cŵn yn dilyn cyfarwyddyd i rwystro pobl sy'n ceisio dianc!

Mae cynlluniau'n awr ar droed i ailadrodd y digwyddiad hwn ledled Cymru yn 2020.



"Roedd hwn yn gyfle gwych i rieni a phlant ddysgu gyda'i gilydd am bynciau sy'n hanfodol i ddiogelu"

Faith McCready, SchoolBeat

# SAFBWYNT AR DROSEDDAU CYLLYLL LEDLED CYMRU

## #YMGYRCH SCEPTRE

**Bob blwyddyn mae Heddluoedd ledled Cymru a Lloegr yn cymryd rhan yn #YmgyrchSceptre.**

Agwedd wythnos o hyd yw hon wedi'i hanelu at ymdrin â throseddau cyllyll, ceisio peidio cylchredeg cyllyll a llafnau a chodi ymwybyddiaeth o'u heffaith, wrth hefyd gynyddu gwybodaeth am beryglon cario cyllyll.

Yn ffodus, mae Cymru'n lle diogel i fyw ac nid yw troseddau cyllyll yn rhan o fywyd bob dydd, ond mae Heddluoedd yn cydnabod pwysigrwydd gweithredu i atal problem rhag codi. Dylid edrych ar droseddau cyllyll yn eu cyd-destun. Mae'n eithaf anarferol i ddigwyddiad treisgar gynnwys cyllell, ac yn brinnach fyth i rywun angen triniaeth ysbyty fod. Mae'r mwyafrif o drais yn cael ei achosi gan bobl yn taro, cicio, gwthio neu slapio rhywun, weithiau mewn cweryl ac yn aml pan maent wedi meddwi.







Mae #YmgyrchSceptre yn cynnwys ymgyrchoedd wedi'u targedu, ymgysylltu ac addysg i dawelu meddwl pobl ifanc eu bod yn fwy diogel yn PEIDIO cario cyllyll.

Mae Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY) yn cefnogi braich addysgiadol yr ymgyrch i hyrwyddo negeseuon diogelwch, rhoi cyngor a chyfeirio pobl ifanc at sefydliadau a all gynorthwyo fel **www.fearless.org** lle gellir hysbysu am unrhyw bryderon yn ddienw.

Mae SHCY yn gallu cyflwyno gwers 'Pam arfau?' a chyflwyno ein Cyflwyniad Cynulliad diweddaraf ar Droseddau Cyllyll – 'Byw heb  o Gyllyll – Cadw'n Ddiogel'.

**COFIWCH - NID YW CARIO CYLLELL YN EICH GWNEUD YN FWY DIOGEL!**

Canllaw rhiant i'r

# Protocol Trechu Trosedd Ysgolion

**Nod y daflen hon yw eich cynorthwyo i ddeall sut mae'r Heddlu'n cynorthwyo ysgolion gyda throseddau rhwng disgyblion ar dir yr ysgol, yn ystod oriau ysgol.**

**SchoolBeat.cymru**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ewch ar wefan SchoolBeat sef www.SchoolBeat.cymru am wybodaeth a chyngor pellach i rieni a disgyblion.**





**A oeddech yn gwybod fod Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY) a adnabyddir hefyd fel Swyddog SchoolBeat yn gweithio ym mhob ysgol yng Nghymru? Maent yn cynorthwyo'r ysgol i ddiogelu eu disgyblion drwy gyflwyno gwersi atal trosedd a chynnig cymorth i'r ysgolion i ymdrin â digwyddiadau difrifol.**

**Diben y daflen hon yw:**

- **Eich cynorthwyo i ddeall sut mae'r Heddlu a'ch ysgol yn gweithio mewn partneriaeth.**
- **Egluro mai'r Protocol Trechu Trosedd Ysgolion yw'r cytundeb rhwng yr ysgol a'r Heddlu sy'n anelu i atal plant rhag mynd i'r System Cyfiawnder Troseddol a chael cofnod troseddol.**
- **Dweud wrthych beth i'w ddisgwyl os oes gan y Swyddog SchoolBeat gysylltiad â'ch plentyn.**

**Ni wnaiff eich Swyddog SchoolBeat ymdrin â bwlio a digwyddiadau lefel isel fel arfer. Yr ysgol ddylai ymdrin â'r ymddygiad hwn. Bydd gan bob ysgol bolisïau a gweithdrefnau i'w dilyn a gallwch ofyn am gael gweld y rhain.**

Mae fy mhlentyn mewn trafferthion yn yr ysgol

Dwi'n meddwl fod fy mhlentyn yn dioddef yn yr ysgol

Dwi'n meddwl fod fy mhlentyn wedi troseddu ar dir yr ysgol.

Beth ddylwn ei ddisgwyl?

## OS YDYCH YN PRYDERU AM EICH PLENTYN, CYSYLLTWCH Â'R YSGOL YN GYNTAF.

**Gwnaiff eich ysgol gynnal ymchwiliad i'r digwyddiad, gan siarad â'r holl dystion. Ymdrinnir â'ch plentyn fel arfer drwy bolisïau'r ysgol a gall y Swyddog SchoolBeat fod ynghlwm ar unrhyw bwynt.**

**Os ydych yn anfodlon gyda'r hyn mae'r ysgol wedi'i wneud, mae gennych hawl i apelio at:**

- **Y Pennaeth**
- **Y Bwrdd Llywodraethwyr**
- **Yr Awdurdod Lleol (ar gyfer ardal eich ysgol)**

### YMATEB YR YSGOL:

1. **Ymchwilio'r digwyddiad drwy broses yr ysgol.**
2. **Mynd drwy weithdrefnau'r ysgol.**
3. **Gall yr ysgol gynnwys y Swyddog SchoolBeat.**
4. **Swyddog SchoolBeat i asesu'r achos o dan Trechu Trosedd Ysgolion.**

**Os nad yw'r ysgol wedi gwneud eisoes, gallwch ofyn i'r ysgol gynnwys y Swyddog SchoolBeat i gynorthwyo.**

## FFONIO'R HEDDLU

**Cyn ffonio 101, a ydych wedi:**

1. **siarad â'r ysgol?**
2. **rhoi amser i'r ysgol ymchwilio?**

**Mae gennych hawl i gysylltu â'r Heddlu'n uniongyrchol.**

**Pan ydych yn ffonio'r gwasanaeth 101, gwnaiff y triniwr galwadau wrando a chofnodi manylion eich sgwrs a rhoi'r manylion hyn ar system yr Heddlu.**

**Efallai bydd eich Swyddog SchoolBeat yn y sefyllfa orau i gynorthwyo.**

**Pan mae'r Swyddog SchoolBeat ynghlwm, byddant yn penderfynu os gellir ymdrin â'r broblem drwy'r Protocol Trechu Trosedd Ysgolion. Os felly, byddant yn ymdrin â'r mater tu allan i'r System Cyfiawnder Troseddol os yn bosibl. Er mwyn gwneud hyn, gall Swyddogion SchoolBeat ddefnyddio 'Datrysiad Adferol' sy'n cael y troseddwr i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau ac yna i wneud iawn am y trosedd. Gall hyn gynorthwyo i adfer y niwed ac mae'n cynorthwyo'r dioddefwr a'r troseddwr.**

### YMATEB YR HEDDLU

1. **Aseswyd y digwyddiad gan y Swyddog SchoolBeat**
2. **Cofnodwyd digwyddiad Heddlu**
3. **Cynhaliwyd ymchwiliad**
4. **Canlyniad - System Cyfiawnder Troseddol, neu Trechu Trosedd Ysgolion**
5. **Cymorth Dioddefwyr**

**Os na all Swyddog SchoolBeat ymdrin â'r digwyddiad, gwnaiff yr Heddlu ymchwilio ymhellach. Mae nifer o ganlyniadau posibl a ellir eu defnyddio i sicrhau datrysiad cadarnhaol ar gyfer y ddwy ochr.**